LEG-09-2003(min)

# Cyfarfod Y Pwyllgor Deddfau

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 25 Mawrth 2003 |
| **Amser:** | 9:30 a.m. |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Rowlands | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Mick Bates, Ron Davies, Dr Dai Lloyd, Tom Middlehurst a Huw Lewis.

**Eitem 1: Ethol Cadeirydd Dros Dro**
Yn absenoldeb Mr Bates croesawodd y Clerc yr Aelodau i ethol Cadeirydd dros dro.

Enwebwyd ac etholwyd Ms Jarman.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy’n codi: LEG-08-2003 (min)**
2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2003.

**Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd**
3.1 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor mai'r cyfarfod heddiw oedd yr un olaf cyn yr etholiadau. At hynny, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn trafod crynodeb o waith y Pwyllgor fel Eitem 6 yr Agenda, ar ôl ystyried Offerynnau Statudol.

**Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**
**LC678 – Rheoliadau Deddf Trwyddedu Swau 1981 (Cymru) (Diwygio) 2003**
4.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

4.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC678 (Adroddiad).

**LC679 – Rheoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) (Cymru) 2003**
4.4 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

4.5 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wallau drafftio ymddangosiadol yn Rheoliad 1(1), Rheoliad 2(4), Rheoliad 7(3)(c), Rheoliad 8(1), Rheoliad 9 (1) a Rheoliad 21(1),(2). Gellid eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

4.6 Gwnaeth y Pwyllgor bum sylw hefyd y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor ac y gellid eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

4.7 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC679 (Adroddiad).

**LC680 – Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Hysbysiadau) (Diwygio) (Cymru) 2003**
4.8 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

4.9 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

4.10 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC680 (Adroddiad).

**LC681 – Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Rhyddfreinio ar y Cyd) (Gwrth-hysbysiadau) (Cymru) 2003**
4.11 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

4.12 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

4.13 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC681 (Adroddiad).

**LC676 – Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) (Diwygio) 2003**
4.14 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

4.15 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

4.16 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC676 (Adroddiad).

**LC677 – Gorchymyn Pysgod Cregyn (Ardal Fôr Benodedig) (Gwahardd Dulliau Pysgota) (Cymru) 2003**
4.17 Cyflwynodd Mr Rowlands ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

4.18 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wall drafftio ymddangosiadol yn Erthygl 4(1). Mynegodd y Pwyllgor y dylid cywiro'r gwall drafftio hwn drwy Orchymyn ddiwygio.

4.19 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC677 (Adroddiad).

**Eitem 5: LC659 – Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygio) 2003**
5.1 Croesawodd y Cadeirydd Mr Turnbull i esbonio'r angen i awdurdodi Memorandwm Cywiriadau o ran y Rheoliadau hyn.

5.2 Esboniodd Mr Turnbull fod set arall o Reoliadau diwygio yn cael eu gwneud ar hyn o bryd o dan y weithdrefn weithredol. Tybiwyd y byddai Rheoliadau LC659 yn dod i rym yn gyntaf. Fodd bynnag, nid dyma'r achos bellach. Felly, bydd angen newid Rheoliadau LC659 i **Reoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2002**.

5.3 Cytunwyd y byddai'r cofnodion yn dangos awdurdodiad ar gyfer Memorandwm Cywiriadau o ran y newid hwn.

**Eitem 6: Ystyried adroddiad sy'n rhoi crynodeb o weithgareddau'r Pwyllgor Deddfau o fewn y cyfnod o bedair blynedd: "Crynodeb o waith y Pwyllgor Deddfau 1999 – 2003"**
6.1 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod y papurau sy'n crynhoi gweithgareddau'r Pwyllgor Deddfau

yn ystod y cyfnod o bedair blynedd wedi eu dosbarthu i'r Aelodau er gwybodaeth, gan mai'r cyfarfod olaf cyn yr etholiadau oedd y cyfarfod hwn.

6.2 Dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiad yn crynhoi gweithgareddau'r Pwyllgor o'r cyfarfod cyntaf ar 29ain Mehefin 1999 i'r cyfarfod ar 11eg Mawrth 2003. At hynny, tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod y Pwyllgor wedi cyfarfod 108 o weithiau. At hynny, crybwyllodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cyhoeddi tri Adroddiad Blynyddol; cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol diwethaf gerbron y Cynulliad ac ystyriodd y Pwyllgor 659 darn o ddeddfwriaeth.

6.3 Nododd y Cadeirydd fod cynrychiolwyr y Pwyllgor wedi ymweld â Phwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban. At hynny, dywedodd y Cadeirydd fod Mick Bates, Cadeirydd y Pwyllgor, wedi cymryd rhan mewn Cynhadledd Ryngwladol yn Awstralia a bod y Pwyllgor wedi ymweld â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol sawl gwaith.

6.4 Nododd y Cadeirydd fod dirprwyaethau o Uganda, y Senedd Ffleminaidd, Cynulliad Deddfwriaethol Ontario, Senedd San Steffan a gweinyddiaethau datganoledig eraill Prydain, ymysg eraill, wedi ymweld â'r Pwyllgor. At hynny, dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi helpu i drefnu tri seminar ar is-ddeddfwriaeth ac un seminar ar ddeddfwriaeth sylfaenol. Gwnaeth y Pwyllgor gyflwyniadau hefyd gerbron Grwp Adolygu Gweithdrefn y Cynulliad a Chomisiwn yr Arglwydd Richardson.

6.5 Dywedodd y Cadeirydd fod y rhestr yn cynnwys y rhain ynghyd â gweithgareddau eraill y Pwyllgor yn ogystal â gwybodaeth ystadegol berthnasol. Argymhellodd y Cadeirydd i gefnogi'r adroddiad.

6.6 Cytunodd yr Aelodau i gefnogi'r adroddiad.

**Eitem 7: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

7.1 Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau'r Pwyllgor, Clerc y Pwyllgor Olga Lewis, Dirprwy Glerc y Pwyllgor Simon Thwaite, Ymgynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor John Turnbull a Dirprwy Ymgynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor Huw Rowlands, yn ogystal â'u rhagflaenwyr am eu gwaith ardderchog a chynhwysfawr ar gyfer y Pwyllgor. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i'r gwasanaeth cyfieithu a gwasanaethau cymorth am eu help.

7.2 Manteisiodd Mr Turnbull ar y cyfle i ddiolch i'r Cadeirydd ac Aelodau'r Cynulliad am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth drwy gydol cyfnod llawn gwaith y Pwyllgor.